

Twristiaeth

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Gwanwyn 2009

Graddio 2008

Graddiodd nifer dda o raddedigion ym mis Gorffennaf eleni a chafwyd diwrnod i'w gofio gan bawb a fynychodd. Mae graddio'n benllanw ar yr holl waith caled a wneir gan fyfyrwyr yn ystod eu cyrsiau. Unwaith eto, cyflawnodd myfyrwyr Twristiaeth yn dda iawn ac aeth y wobwr am Fyfyriwr y Flwyddyn mewn Rheoli Twristiaeth i Tamina Weidlich. Dyfarnwyd y wobwr i Tamina ar sail ei chanlyniadau gwych ar draws ei gradd yn gyffredinol, gyda chyfanswm ei marciau y gorau gan unrhyw fyfyrwr hyd yma i astudio'r cwrs gradd hwn ac yn deilwng o radd dosbarth cyntaf. Testun ei thraethawd blwyddyn olaf oedd effeithiau 'mega-chwaraeon'. Bwriad Tamina nawr yw mynd ymlaen i astudio pwnc sy'n ymwneud â thwristiaeth ar lefel Meistr. Llongyfarchiadau Tamina!



Tamina yn derbyn gwobr Myfyriwr y Flwyddyn mewn Rheoli Twristiaeth oddi wrth Yr Athro Will Haresign.

Myfyrwyr y Drydedd Flwyddyn yn Gwyllo Dolffiniaid

Er fod y bae braidd yn arw ni rwystrodd hynny ddeg o fyfyrwyr dewr y drydedd flwyddyn rhag astudio modiwl twristiaeth gynaliadwy gan fentro i'r dŵr i chwilio am ddolffiniaid. Trefnwyd y daith yn rhan o ymweliad maes â Chanolfan Bywyd Gwylt y Môr Bae Ceredigion yng Nghei Newydd. Nod y Ganolfan yw codi ymwybyddiaeth o faterion cadwraeth y môr yn y Bae yn ogystal ag ymgymryd ag ymchwil berthnasol, gan gynnwys prosiect ffoto-adnabyddiaeth i gynyddu ein gwybodaeth wyddonol ynghylch y grŵp o ddolffiniaid trwynbwll sydd wedi ymgartrefu ym Mae Ceredigion.

Gan weithio ar y cyd â'r Ganolfan, mae Steve Hartley yn rhedeg teithiau ymchwil yn ei gwch, *Sulaire*. Fel hyn, defnyddir twristiaeth yn gyfrwng i helpu i ariannu ymchwil y Ganolfan. Yn y cyfamser, caiff y gwsteion brofiad cofiadwy wrth gael eu hannog i gynorthwyo'r ymchwil fel gwylwyr



Gweld dolffin - wel, cipolwg 'falle.

dolffiniaid a chofnodwyr data, a gallant ddysgu gan Steve am amgylchedd y môr, ei ffawna a fflora, a rôl cadwraeth forol.

Yn dilyn sgwrs addysgiadol gan Steve am y Ganolfan, mwynhaodd y grŵp daith yn y cwch am ryw awr o amser. Yn groes i'r gobaith, aros yn y dirgel a wnaeth y dolffiniaid, y llamhidyddion a'r morloi, ond roedd digon o adar y môr i'w gweld yn ogystal â golygfeydd ysblennydd o'r arfordir.

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig **IBERS ABERYSTWYTH**

Rhestr Cyrsiau

BSc

Rheoli Twristiaeth
Twristiaeth gyda Ffrangeg
Twristiaeth gyda Sbaeneg
Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Gradd Sylfaen

Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Diploma Cenedlaethol Uwch

Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth

Diddordeb?

Ffoniwch Fay Hollick ar **01970 624471** am fanylion pellach neu ewch i'r wefan **www.aber.ac.uk/cy/ibers**

Os hoffech siarad â rhywun ynglŷn â'n cyrsiau mewn **twristiaeth** a **hamdden** ffoniwch **Dr Brian Garrod** ar **01970 621638** neu anfonwch e-bost ato ar **bugg@aber.ac.uk**.

Emma yn Mordwyo at Lwyddiant

Newyddion oddi wrth Emma Birkett a raddiodd o Aberystwyth yn 2006. Ysgrifenna: "Ar ôl graddio, dychwelais i Aberystwyth am flwyddyn arall i ddilyn cwrs Meistr mewn Rheoli a Marchnata. Bellach rwy'n byw yn Southampton ac yn gweithio i'r cwmni mordeithiau mwyaf yn y byd, *Carnival/Carnival UK*. Rwy'n gweithio i Ocean Village, sy'n rhan o *Carnival UK*, fel dadansoddwr cynllunio. Mae hyn yn golygu prisio, dadansoddi'r farchnad ac ymchwilio. Rwy'n dwli ar fy ngwaith ac rwy'n cael teithio ar hyd a lled y byd i gyd, rhywbeth a fu'n freuddwyd gen i erioed."

"Wna'i byth anghofio fy nghyfnod a'm profiad yn Aberystwyth. Nid yn unig y gwnes fwynhau fy hunan trwy gydol y pedair blynedd ond hefyd bu'r adran, y darlithwyr a'r cyrsiau yn help gwirioneddol i mi i gyrraedd fy mhotensial llawn ac yn y pen draw, rhoi i mi'r hyder a'r gred i gyrraedd lle rydw i heddiw."



Samplo'r mega-lithren – y cyfan i ddiben gwyddoniaeth wrth gwrs.

Ffermio ar ei Newydd Wedd

Fel rhan o'u modiwl'rheoli cefn gwlad ar waith, bu myfyrwyr trydedd flwyddyn BSc (Anrhydedd) Hamdden Cefn Gwlad a Thwristiaeth yn ymweld â dwy fferm ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y ddwy wedi arallgyfeirio i dwristiaeth.

Yn y bore, ymwelodd y myfyrwyr â Fferm Aberyddnant ger Crai, lle mae'r perchennog wedi trosi rhai o dai allan y fferm yn fythynnod gwyliau penigamp. Wedi'i leoli ym mherfeddion cefn gwlad gogoneddus Bannau Brycheiniog, mae Fferm Aberyddnant yn rhoi cyfle i westeion brofi bywyd ar fferm organig. Caiff y gwesteion eu hannog i helpu i borthi'r anifeiliaid a chasglu wyau'r ieir maes.

Yn y prynhawn, ymwelodd y myfyrwyr â Fferm Antur Cantref, lle mae'r perchennogion wedi datblygu atyniad ymwelwyr, addas i deuluoedd, ochr yn ochr â'u busnes ffermio traddodiadol. Mae'r fferm antur yn rhoi cyfle i ymwelwyr i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r fferm, megis bwydo'r ŵyn, mynd am dro ar dractor a threlar, neu roi cynnig ar rywbeth ychydig yn wahanol megis cael tro ar y 'mega-lithren' neu fod yn wylwr yn y rasys moch. Yn ogystal, mae'r fferm yn cynnig llety ar ffurf byncws ac mae yma ysgol farchogaeth.

Twristiaeth a Newid yn yr Hinsawdd

Mae un o'r darlithwyr twristiaeth, Dr Brian Garrod, yn rhan o gonsortium sy'n ymchwilio i effeithiau posibl newid hinsawdd ar economi ymwelwyr Cymru. Cyllidir y prosiect gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy Croeso Cymru, sefydliad olynol Bwrdd Croeso Cymru. Amcanion y prosiect yw asesu effeithiau tebygol y tywydd ar ymddygiad ymwelwyr, gwerthuso pwysigrwydd cymharol y tywydd fel ffactor ym mhenderfyniadau ymwelwyr, ac amlinellu effeithiau posibl newid hinsawdd ar y farchnad dwristiaeth yng Nghymru. Ystyrir hefyd effeithiau a goblygiadau polisïau.

Mae'r consortium yn cael ei arwain gan ADAS ac mae hefyd yn cynnwys ymchwilwyr o Uned Ymchwil Newid yn yr Hinsawdd Prifysgol East Anglia ac Ysgol Ddaeryddiaeth Prifysgol Manceinion. Cychwynwyd eisoes ar y gwaith a bydd yn parhau hyd at fis Mai 2009.

Ymchwilydd Eco-dwristiaeth o Ganada yn Ymweld ag Aberystwyth

Roedd y Brifysgol wrth ei bodd yn estyn croeso i Holly Donohoe ar ei hymweliad yma ym mis Tachwedd. Yn Ottawa, Canada y mae gweithle Holly lle mae'n ymgynghorydd twristiaeth ac yn gweithio i sefydliadau megis y *Canadian Parks and Recreation Association*, y *Canadian Association for Leisure Studies* a Sefydliad Hamdden y Byd, (y *World Leisure Organization*). Fel rhan o'i hymweliad, traddododd Holly ddarlith i'r staff a myfyrwyr y drydedd flwyddyn ar bwnc cyfreithlondeb diwydiant, marchnata cynaliadwy a sensitifrwydd diwylliannol ym maes eco-dwristiaeth. Yn ei darlith, nododd Holly anghysonderau rhwng egwyddorion ac arferion eco-dwristiaeth, yn enwedig o ran effeithiau cyflwyno eco-dwristiaeth i ddiwylliannau lleol, a chynigiodd fod y fframwaith yn cael ei adolygu ar gyfer deall a rheoli eco-dwristiaeth gyfoes.

Y Glasfyrwyr yn mynd Dan Ddaear

Ym mis Medi 2008 derbyniwyd y nifer mwyaf erioed o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf i gyrsiau gradd twristiaeth yn Aberystwyth, yn eu plith y myfyrwyr cyntaf i astudio ein gradd newydd BSc (Anrhydedd) Twristiaeth gyda Sbaeneg.

Dechreuwyd o ddirif ar yr astudiaethau yn syth gydag ymweliad â Labyrinth y Brenin Arthur, atyniad ymwelwyr poblogaidd gerllaw Corris. Yn gyntaf oll, cafodd y myfyrwyr gyflwyniad addysgiadol gan y perchennog, lan Rutherford, cyn mwynhau profiad y Labyrinthneigrwth, gan deithio i ddechrau ar gwch ac yna ar droed, yn ôl i'r gorffennol pell a gwrando ar storïau am y Brenin Arthur a chwedlau hynafol eraill o Gymru.



Grŵp o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, wedi gwisgo'n briodol ar gyfer yr ymweliad

Wrth ddychwelyd i Aberystwyth, cafwyd arhosiad yn nhref farchnad hanesyddol Machynlleth, lle anogwyd myfyrwyr i ymweld â lleoedd o ddiddordeb drostynt eu hunain gan gynnwys Canolfan Owain Glyndŵr ac Amgueddfa Celf Fodern, Cymru.

Mae Nika yn symud ymlaen

Newyddion cyffrous oddi wrth Nika Balomenou, sydd newydd gael swydd newydd fel Darlithydd mewn Twristiaeth a Rheoli Digwyddiadau ym Mhrifysgol Sir Hertford. Mae Nika wedi bod yn astudio am PhD ym maes cynllunio twristiaeth am y tair blynedd diwethaf a bu hefyd yn ddarlithydd ar ymweliad yn y Sefydliad. Bu'n flwyddyn hynod o brysur i Nika gan iddi briodi yn ei thref enedigol yng ngwlad Groeg yn ystod yr haf. Llongyfarchiadau Nika ar y ddau ddiwyddiad.

Papur Cynhadledd

Yn ddiweddar, mynychodd aelod o'r staff, lan Keirle, Gynhadledd Ryngwladol yn Tuscany, yr Eidal, ar Reoli a Monitro Llifoedd Ymwelwyr. Cyflwynodd bapur yno ar y defnydd o'r decheg 'pwysigrwydd-perfformiad' fel modd o sefydlu boddhad ymwelwyr yng nghyswllt nifer o faterion yn ymwneud â thwristiaeth wledig. Seiliwyd hyn ar astudiaeth a gwblhaodd ar faterion rheoli yn gysylltiedig â mynediad i gefn gwlad Ceredigion.